

Cyngor Sir Penfro

DATGANIAD POLISI TÂL 2019 - 2020

Cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar yr 21^{ain} o Chwefror 2019

Cyhoeddwyd yn unol ag adran 39 o Ddeddf Lleoliaeth 2011

1. Cyflwyniad a Phwrpas

1.1 Dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor y grym 'i benodi swyddogion ar y cyfryw delerau ac amodau rhesymol ag y mae'r Awdurdod yn eu hystyried yn addas'. Mae'r Datganiad Polisi Tâl hwn yn egluro agwedd y Cyngor tuag at Bolisi Tâl yn unol â gofynion adrannau 38 i 43 o Ddeddf Lleoliaeth 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn rhoi manylion:

- a) Polisiau'r Cyngor ynghylch pob agwedd ac elfen o gydnabyddiaeth Prif Swyddogion;
- b) Y dull o gyhoeddi a mynediad at wybodaeth yn ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth y Prif Swyddogion;
- c) Polisi'r Cyngor ar gydnabyddiaeth ei weithwyr sydd ar y cyflogau isaf (gan gynnwys y diffiniad a fabwysiadwyd a'r rhesymau am hynny);
- d) Y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol ei Brif Swyddogion a gweithwyr eraill.

1.2 Mae awdurdodau lleol yn gyrrff cymhleth, mawr gyda chyllidebau o filiynau o bunnau. Mae ystod eu swyddogaethau yn eang iawn ac maent yn darparu a/neu'n comisiynu amrediad eang o wasanaethau hanfodol. Efallai, felly, y bydd y dull cyffredinol o ymdrin â lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn wahanol rhwng un grŵp o weithwyr ac un arall i adlewyrchu'r amgylchiadau penodol ar lefel leol, lefel Cymru neu lefel y Deyrnas Unedig. Bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg pan fydd eisiau mynd i'r afael ag amrywiaeth o amgylchiadau newidiol, boed y rheiny'n rhai rhagweladwy neu beidio.

1.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod rôl yr undebau llafur wrth ymgynghori a thrafod tâl ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r Cydgynghorau Cenedlaethol a'r Cydbwyllgorau Trafod Telerau sy'n rheoli'r cytundebau cenedlaethol ynghylch tâl ac amodau gwasanaeth sy'n berthnasol i'r holl grwpiau o weithwyr y cyfeirir atynt yn y datganiad polisi tâl hwn.

Cyngor Sir Penfro

1.4 Fel sy'n ofynnol drwy ddeddfwriaeth, cymeradwyodd y Cyngor Llawn y datganiad polisi tâl ym mis Chwefror 2019 ac, yn dilyn hynny, daeth i rym ar unwaith. Mae'r polisi i gael ei adolygu, bob blwyddyn o leiaf, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

2. Y Fframwaith Deddfwriaethol

2.1 Wrth bennu tâl a chydabyddiaeth ei holl weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys:

- a) Deddf Cydraddoldeb 2010
- b) Rheoliadau Cyflogaeth Ran-amser (Atal Triniaeth Lai Ffatriol) 2000
- c) Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010
- d) Rheoliadau Gweithwyr Tymor Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffatriol) 2002 a, lle bo'n berthnasol,
- e) Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)

2.2 Gyda golwg ar ofynion cyflog cyfartal sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau nad oes yna wahaniaethu anghyfreithlon o fewn ei strwythurau cyflogau ac y gellir cyfiawnhau pob gwahaniaeth tâl yn wrthrychol drwy ddefnyddio cynllun dilys i werthuso swydd, sy'n cysylltu tâl sylfaenol yn uniongyrchol â gofynion, anghenion a chyfrifoldebau pob rôl.

3. Cwmpas y Polisi Tâl

3.1 Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a rhoi cyhoeddusrwydd i'w polisi tâl ar bob agwedd o gydnabyddiaeth prif swyddogion (gan gynnwys pan fyddant yn gadael eu swydd) a hefyd mewn perthynas â'r gweithwyr 'ar y cyflog isaf' yn yr awdurdod, gan esbonio eu polisi ar y berthynas rhwng cydnabyddiaeth i brif swyddogion ac i grwpiau eraill.

3.2 Nid yw'r darpariaethau yn Neddf Lleoliaeth 2011, sy'n ymwneud â datganiadau polisi tâl, yn berthnasol ond i weithwyr sydd wedi eu penodi ac sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cyngor. Nid yw'n ofynnol felly i weithwyr a benodir ac a reolir gan gyrff llywodraethu ysgolion gael eu cynnwys o fewn cwmpas datganiadau polisi tâl. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol lle mae gweithwyr ysgol yn cael eu cyflogi

Cyngor Sir Penfro

gan y Cyngor ond y penderfyniadau ynghylch penodi a rheoli gweithwyr o'r fath yn gorwedd gyda'r Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu fel bo'n briodol.

4. Egwyddorion Bras Polisi Tâl y Cyngor

4.1 Tryloywder, atebolrwydd a gwerth am arian

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i agwedd agored a thryloyw tuag at bolisi tâl, fydd yn galluogi'r trethdalwyr i gael mynediad at wybodaeth, ei deall a'i hasesu ynghylch lefelau cydnabyddiaeth ar draws holl grwpiau gweithwyr y Cyngor. I'r diben hwn, darperir y canlynol fel atodiadau i'r polisi hwn:-

- a) Graddfeydd cyflog Cyngor Sir Penfro - y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) i weithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Atodiad A)
- b) Graddfeydd cyflog Cyngor Sir Penfro - y Cydbwyllgor Trafod Telerau (JNC) i Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a Phrif Swyddogion (Atodiad B)
- c) Graddfeydd cyflog i weithwyr sy'n dod o dan Gytundeb Soulbury (Atodiad C)
- d) Polisi Cyngor Sir Penfro mewn perthynas â thaliadau iawndal colli swydd / diswyddo (Atodiad D)

Mae cytundebau telerau ac amodau gwasanaeth cenedlaethol perthnasol ar gael os gofynnir gan yr Is-adran Adnoddau Dynol.

4.2 Datblygu Strategaeth Tâl a Gwobrwyo

4.2.1 Prif nod strategaeth wobrwyo yw denu, cadw a rhoi cymhelliant i weithwyr â'r medrau addas fel y gall y Cyngor weithredu ar ei orau. Mae datblygu strategaeth tâl a gwobrwyo felly yn fater o ganfod cydbwysedd rhwng pennu cydnabyddiaeth ar lefelau priodol i sicrhau cyflenwad digonol o unigolion, sy'n meddu ar y sgiliau addas i lenwi'r ystod eang iawn o swyddi sydd gan y Cyngor, ac ar yr un pryd sicrhau hefyd nad yw'r baich ar y trethdalwyr yn mynd yn fwy nag y gellir ei gyfiawnhau yn llawn ac yn wrthrychol.

4.2.2 Yn y cyd-destun hwn, mae angen cydnabod bod eisiau i lefelau cydnabyddiaeth ar y lefelau uwch fod yn ddigonol i recriwtio o gronfa addas o eang o dalentau (fydd, yn ddelfrydol, yn cynnwys pobl o'r sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus, ac o'r tu allan yn ogystal â thu mewn i Gymru), ac i gadw'r unigolion sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau addas unwaith y

Cyngor Sir Penfro

byddant yn eu swyddi. Rhaid cydnabod y bydd y Cyngor yn aml yn recriwtio am dalent mewn cystadleuaeth yn erbyn cyflogwyr eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

- 4.2.3 At hynny, y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf yn Sir Benfro. Fel y cyfryw, rhaid i'r Cyngor gadw mewn cof ei swyddogaeth o ran gwella lles economaidd pobl y sir. Mae argaeledd gwaith cyflogedig o ansawdd da ar delerau ac amodau rhesymol a chyfraddau cyflog teg yn cael effaith lesol ar ansawdd bywyd yn y gymuned yn ogystal â'r economi leol. Mae gan y Cyngor hefyd swyddogaeth mewn gosod meincnod ar gyfer tâl ac amodau i gyflogwyr eraill yn yr ardal am yr un rhesymau.
- 4.2.4 Wrth gynllunio, datblygu ac adolygu ei strategaeth tâl a gwobrwyo, bydd y Cyngor yn ceisio cydbwysu'r ffactorau hyn yn briodol er mwyn gwella'r deilliannau i'r Cyngor fel sefydliad a hefyd i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, tra'n rheoli costau cyflogau'n briodol a chynnal digon o hyblygrwydd i ateb anghenion y dyfodol.

4.3 Gwerthuso Swyddi a Graddau Cyflog

- 4.3.1 Mae gwerthuso swyddi yn ffordd systematig o benderfynu gwerth swydd mewn perthynas â swyddi eraill o fewn sefydliad. Ei nod yw gwneud cymhariaeth systematig rhwng swyddi er mwyn asesu eu gwerth cymharol i'r diben o sefydlu strwythur cyflogau rhesymol a thegwch tâl rhwng swyddi.
- 4.3.2 Cwblhaodd y Cyngor ymarferiad gwerthuso swyddi yn 2012 mewn perthynas â'r holl swyddi oedd yn cael eu llywodraethu gan y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, gan gymhwyso'r cysyniad o deuluoedd o swyddi a phroffiliau rôl, a'r fethodoleg o ddyrannu swyddi i deuluoedd. Prif nod yr ymarferiad oedd sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ar gyflog cyfartal. Cafodd y strwythur cyflogau newydd ar gyfer y grŵp hwn o weithwyr, yn seiliedig ar yr astudiaeth honno, ei gyflwyno ar y 1^{af} o Ebrill 2013, gyda grym ôl-weithredol i'r 1^{af} o Ebrill 2012.
- 4.3.3 Mae'r strwythur cyflogau newydd wedi cael ei asesu drwy Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Annibynnol.

Cyngor Sir Penfro

4.4 Atodiadau cyflog y farchnad

- 4.4.1 Mae defnyddio cynllun gwerthuso swyddi yn galluogi'r Cyngor i bennu lefelau cydnabyddiaeth priodol yn seiliedig ar berthnasedd maint swydd fewnol yn y Cyngor. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd angen cymryd y farchnad gyflogau allanol i ystyriaeth er mwyn denu a chadw gweithwyr gyda phrofiad, sgiliau a chymwysterau neilltuol, lle mae'r rhain yn brin.
- 4.4.2 Polisi'r Cyngor yw sicrhau bod yr angen am unrhyw ychwanegiad cyflog marchnad o'r fath yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol drwy gyfeirio at dystiolaeth glir oddi wrth gymaryddion marchnad perthnasol, gan ddefnyddio ffynonellau data dibynadwy. Polisi'r Cyngor yw bod unrhyw ychwanegiadau cyflog o'r fath yn cael eu cadw i lawr i'r eithaf ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel y gellir eu tynnu'n ôl pan na fyddant yn cael eu hystyried yn angenrheidiol mwyach.

4.5 Honoraria

- 4.5.1 Efallai y bydd yna achlysuron pan y gofynnir i weithiwr gyflawni dyletswyddau llawn swydd wahanol, neu ddyletswyddau sy'n ychwanegol at rai ei swydd ei hun, dros gyfnod o amser. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r lwfansau Swydd Uwch ac Honoraria a delir gyd-fynd ag Adran 4 Polisi Cynnal Strwythur Cyflogau.
- 4.5.2 Rhaid i unrhyw daliadau honorariwm mewn perthynas â phrif swyddogion y Cydbwyllgor Trafod Telerau (JNC) gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor y Staff Uwch.

4.6 Tâl a pherfformiad

- 4.6.1 Mae'r Cyngor yn disgwyl lefelau uchel o berfformiad gan ei weithwyr i gyd ac mae ganddo gynllun arfarnu blynyddol sydd wedi ei sefydlu i adolygu, gwerthuso a rheoli perfformiad yn barhaus.
- 4.6.2 Nid oes tâl yn ôl perfformiad yn gymwys i unrhyw grŵp o weithwyr ar hyn o bryd.

Cyngor Sir Penfro

4.7 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

- 4.7.1 Yn dibynnu ar rai rheolau cymhwyster, mae gweithwyr yn cael eu cofrestru yn awtomatig yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) pan fyddant yn dechrau yn eu swydd. Mae gan weithiwr, nad yw'n gymwys ar gyfer cofrestru'n awtomatig, yr hawl i ddewis dod yn aelod o'r cynllun. Pennir cyfraddau cyfraniadau'r gweithwyr gan reoliadau'r LGPS ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% o'r tâl pensiynadwy yn dibynnu ar union lefel y cyflog. Mae cyfradd cyfraniad cyflogwr y Cyngor yn cael ei bennu gan actiwariad a benodir gan Gronfa Bensiwn Dyfed yn dilyn pob gwerthusiad cronfa bob tair blynedd.
- 4.7.2 Mae'r Cyngor, ers y 1^{af} o Dachwedd 2017, wedi darparu trefniant 'AVC drwy Gost a Rennir' fel y darperir dan reoliad 16 o Reoliadau'r LGPS 2013.

4.8 Buddion eraill gweithwyr

- 4.8.1 Mae'r Cyngor yn cynnig buddion i staff yn unol â'i ddyletswyddau statudol ac arferion da cyflogaeth, megis ad-dalu costau profion llygaid ar gyfer defnyddwyr offer sgrin arddangos yn eu gwaith, a chynlluniau aberthu cyflog gan gynnwys talebau gofal plant a Chynllun Beicio i'r Gwaith a Chynllun Aberthu Cyflog Car.

5. Cydnabyddiaeth Prif Swyddogion

5.1 Diffiniadau o Brif Swyddog a Lefelau Tâl

- 5.1.1 I ddibenion y Datganiad hwn, mae 'prif swyddogion' yn unol â'r diffiniad yn adran 43 o'r Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi sy'n dod o fewn y diffiniad fel a ganlyn:-
- pennaeth y gwasanaeth cyflogedig (h.y. y prif weithredwr);
 - y swyddog monitro;
 - y prif swyddogion statudol ac anstatudol (h.y. pedwar cyfarwyddwr gwasanaethau sirol);
 - y 'dirprwy brif swyddogion' (h.y. y 15 pennaeth gwasanaeth)
- 5.1.2 Nid oes bonws na mecanwaith tâl yn ôl perfformiad yn berthnasol i dâl prif swyddogion.

Cyngor Sir Penfro

5.1.3 Mae'r Cyngor yn cyflogi Prif Swyddogion ar delerau ac amodau'r Cydbwyllgor Trafod Telerau (JNC) sydd wedi eu cynnwys yn eu contractau. Mae'r JNC ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol yn negodi ar gynyddiadau tâl cost byw blynyddol, cenedlaethol (y DU) ar gyfer y grŵp hwn, a chaiff unrhyw ddyfarniad ei bennu ar sail hyn. Mae gan Brif Swyddogion sydd wedi eu cyflogi dan delerau ac amodau JNC hawl drwy eu contract i unrhyw godiadau cyflog a bennir gan y JNC yn genedlaethol a bydd yr Awdurdod felly yn talu'r rhain pan gânt eu penderfynu yn unol â gofynion y contract cyfredol.

5.2 Recriwtio Prif Swyddogion

5.2.1 Mae polisi a gweithdrefnau'r Cyngor gyda golwg ar recriwtio prif swyddogion wedi eu cynnwys yn y Trefniadau Llywodraethu - Swyddogion, fel y'u ceir yn Rhan 2 (Adran 10) y Cyfansoddiad. Rhaid i'r penderfyniad ynghylch y gydnabyddiaeth i'w chynnig i unrhyw brif swyddog sydd newydd ei benodi fod yn unol â'r strwythur cyflogau a'r polisiau perthnasol sydd yn eu lle ar adeg recriwtio. Rhaid i unrhyw becyn cyflog¹ mewn perthynas â phrif swyddog o dan £100,000 gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Staff Uwch a rhaid i unrhyw swydd gyda phecyn cyflog o £100,000 neu fwy gael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn gyntaf cyn ei hysbysebu.

5.3 Ychwanegiadau at Gyflogau Prif Swyddogion

5.3.1 Mae'r Cyngor yn rhoi cymhorthdal tuag at gost benthyca ceir ar gyfer prif swyddogion drwy lwfans benthyca car. Mae lefel y lwfans o fis Ebrill 2019 i'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr wedi ei bennu ar £7,967 y flwyddyn a £5,581 y flwyddyn i benaethiaid gwasanaeth. Rhoddir ad-daliad am filltiroedd teithio busnes yn unol â'r cyfraddau priodol a gymeradwywyd gan HMRC. Caiff costau teithio a chynhaliaeth rhesymol eraill a achosir gan brif swyddog tra bydd ar fusnes y Cyngor hefyd eu had-dalu os cyflwynir derbynebaw ac yn unol ag amodau JNC ac amodau lleol.

¹ Mae 'pecyn cyflog' yn y cyd-destun hwn yn golygu cyflog gros y swydd (ar bwynt uchaf y radd berthnasol), ynghyd â gwerth y lwfansau, sy'n daladwy drwy gontract gan yr awdurdod i'r gweithiwr, cyfraniad yr awdurdod i bensiwn y gweithiwr, ac unrhyw fuddion mewn nwyddau y mae gan y gweithiwr hawl iddynt o ganlyniad i'w gyflogi.

Cyngor Sir Penfro

- 5.3.2 Telir cost dau danysgrifiad i gyrff neu gymdeithasau proffesiynol gan y Cyngor ar gyfer y prif weithredwr a phob cyfarwyddwr.
- 5.3.3 Telir cost un tanysgrifiad i gorff neu gymdeithas broffesiynol gan y Cyngor ar gyfer pob pennaeth gwasanaeth.
- 5.3.4 Mae'r prif weithredwr, y cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth yn derbyn lwfans ffôn gartref sy'n cynnwys ad-dalu rhent y lein a chost galwadau busnes. Mae'r lwfans hwn yn cael ei ddiddymu'n raddol ar gyfer penodiadau newydd.
- 5.3.5 Mae gan y Cyngor ddyletswydd i benodi Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer etholiadau penodol a refferenda. Prif Weithredwr y Cyngor sydd wedi ei benodi i'r swydd hon yn Sir Benfro. Mae'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol yn bersonol gyfrifol am ystod eang o swyddogaethau cysylltiedig â chynnal etholiadau ac mae'n cael ei dalu am gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn unol â'r ffioedd rhagnodedig. Telir ffioedd o'r fath ar wahân i'r cyflog sylfaenol.
- 5.3.6 Polisi'r Cyngor yw peidio â chaniatáu i weithiwr, sy'n dal swydd y mae wedi cytuno iddi, gael ei dalu mewn unrhyw ffordd ond drwy gyflogres y Cyngor, ac nid yw'n gweithredu trefniadau sydd wedi eu bwriadu i leihau taliadau treth unigolion.

5.4 Taliadau wrth derfynu cyflogaeth

- 5.4.1 Mae agwedd y Cyngor tuag at daliadau statudol a dewisol pan derfynir cyflogaeth prif swyddog (a phob gweithiwr arall) oherwydd dileu swydd neu er budd y gwasanaeth, wedi ei hegluro yn ei bolisi o dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (lawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006. Cyfeiriwch at Atodiad D, os gwelwch yn dda.
- 5.4.2 Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru y dylid rhoi cyfle i'r Cyngor Llawn bleidleisio cyn cymeradwyo 'pecynnau diswyddo mawr' (a ddiffinnir fel rhai sy'n werth £100,000 neu fwy) ar gyfer staff sy'n gadael y sefydliad, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw hawliau statudol neu gytundebol sy'n ddyledus i'r gweithiwr a chanlyniadau posibl diffyg cymeradwyaeth y Cyngor, pan fydd modd i'r gweithiwr, yn wyneb methiant i

Cyngor Sir Penfro

gyflawni ymrwymiadau statudol neu gytundebol, hawlio iawndal am dorri contract.

5.5 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

5.5.1 Mae Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfeirio at Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRP) ac mae'n egluro ei swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau penaethiaid gwasanaeth cyflogedig. Efallai y bydd yr IRP yn gwneud argymhellion ynglŷn ag unrhyw bolisi yn y datganiad polisi tâl hwn sy'n ymwneud â chyflog pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod ac unrhyw newid arfaethedig i gyflog pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod. Bydd y Cyngor, fel sy'n ofynnol, yn ymgynghori â'r IRP mewn perthynas ag unrhyw newid yng nghyflog pennaeth y gwasanaeth cyflogedig nad yw'n gymesur â newidiadau yng nghyflogau staff eraill y Cyngor, a bydd yn cadw mewn cof unrhyw argymhelliad y bydd yn ei dderbyn gan yr IRP wrth benderfynu p'un ai symud ymlaen i wneud y newid ynteu peidio.

5.5.2 Fe wnaeth Adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ymestyn dyletswyddau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol o 26 Ionawr 2016 i'w gwneud yn ofynnol i bob newid arfaethedig yng nghyflog prif swyddog awdurdod lleol nad yw'n 'gymesur â newid yng nghyflogau staff eraill yr awdurdod' gael ei gyflwyno i'r IRP am eu hargymhelliad cyn i'r newid gael ei wneud, a bod yr Awdurdod i gadw mewn cof unrhyw argymhelliad y bydd wedi ei dderbyn gan yr IRP wrth benderfynu p'un ai symud ymlaen i wneud y newid ynteu peidio. Bydd y Cyngor yn cadw at y darpariaethau hyn a dylid darllen pob cyfeiriad at brosesau'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar unrhyw agwedd o gyflog y prif weithredwr neu brif swyddog fel eu bod yn cynnwys y cam hwn, lle nad yw'r newid perthnasol yn 'gymesur â newid yng nghyflog staff eraill yr awdurdod'.

6. Cyhoeddi

6.1 Ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Cyngor llawn, caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cyngor Sir Penfro

6.2 At hynny, ar gyfer swyddi lle mae'r cyflog sy'n cyfateb i amser llawn yn £60,000 o leiaf y flwyddyn, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, bydd Datganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn cynnwys nodyn yn egluro cyfanswm:

- a) Cyflog, ffioedd neu lwfansau a dalwyd neu y gallai'r person eu derbyn yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol;
- b) Unrhyw fonws a dalwyd felly neu y gallai'r person ei dderbyn yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol;
- c) Unrhyw symiau taladwy fel lwfans costau sy'n drethadwy o ran treth incwm y DU;
- d) Unrhyw iawndal am gollu cyflogaeth ac unrhyw daliadau eraill cysylltiedig â therfynu cyflogaeth;
- e) Unrhyw fuddion a dderbyniwyd nad ydynt ymhlith yr uchod, a
- f) Chymhareb cydnabyddiaeth y prif weithredwr i gydnabyddiaeth ganolrifol holl weithwyr yr Awdurdod (gweler hefyd gymal 7.5 isod).

7. Perthynoledd Tâl o fewn y Cyngor

7.1 Caiff yr unigolion a delir leiaf, sydd wedi eu cyflogi dan gontract cyflogaeth gyda'r Cyngor, eu cyflogi yn unol â'r pwynt isaf yn y golofn gyflog (pwynt 1 y golofn) a osodwyd gan y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Mae Setliad Cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer 2019 wedi cytuno ar golofn gyflog ddiwygiedig. Ar adeg cyhoeddi, nid yw trafodaethau lleol ar gymhathu i'n ffrâm radd gyfredol wedi'u cwblhau eto, ond caiff ein strwythur graddio arfaethedig presennol, sy'n cael ei drafod gan undebau llafur, ei gyhoeddi yn Atodiad A. Gwerth pwynt 1 y golofn gyflog fydd £9.00 sef y gyfradd cyflog byw cyfredol o 1 Ebrill 2019 £17,364 y flwyddyn ar gyfer person sy'n gweithio'n llawn amser (h.y. yr wythnos 37 awr safonol).

7.2 Caiff y berthynas rhwng cyflog y gweithiwr isaf ei gyflog a'r prif swyddogion ei phenderfynu gan y prosesau a ddefnyddir i benderfynu strwythurau cyflogau a graddio fel yr eglurir yn y datganiad polisi tâl hwn.

Cyngor Sir Penfro

7.3 Mae'r canllawiau statudol dan Ddeddf Lleoliaeth yn argymhell defnyddio lluosrifau cyflog fel dull o fesur y berthynas rhwng cyfraddau tâl ar draws y gweithlu a thâl uwch reolwyr, fel sydd wedi ei gynnwys yn *'Review of Fair Pay in the Public Sector'* (2010) Hutton. Comisiynwyd adroddiad Hutton gan y Llywodraeth i edrych i mewn i'r achos dros osod terfyn pendant ar wasgariad cyflogau drwy ofyniad na all unrhyw reolwr yn y sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith cyflog yr unigolyn a delir leiaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas â'r enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol ac mae'r Cod Ymarfer a Argymhellir gan y Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymhell cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a chyflog canolrifol holl weithlu'r Awdurdod (ac eithrio athrawon a gweithwyr eraill a benodir ac a reolir gan ysgolion).

7.4 Mae'r trefniadau talu cyfredol o fewn y Cyngor yn diffinio'r lluosrif rhwng y gweithiwr (cyfwerth ag amser llawn) ar y cyflog isaf a lefel cyflog ar gyfer swydd y prif weithredwr yn 1:7:8. Y lluosrif rhwng y gweithiwr ar y cyflog isaf a'r prif swyddog cyfartalog yn 1:5.2. Y lluosrif cyflog rhwng enillion cyfwerth â llawn amser canolrifol (cyfartalog) a lefel cyflog swydd y prif weithredwr yw 1:6.6, a'r lluosrif cyflog rhwng enillion cyfwerth â llawn amser canolrifol (cyfartalog) a'r prif swyddog cyfartalog yw 1:4.4. Mae'r ffigurau yn cau prentisiaid allan.

7.5 Fel rhan o'i waith cyffredinol a pharhaus yn monitro aliniad â marchnadoedd cyflog allanol, y tu mewn a thu allan i'r sector, bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth feincnodi sydd ar gael fel bo'n briodol.

8. Atebolrwydd a Gwneud Penderfyniadau

8.1 O fewn Cyfansoddiad y Cyngor, penderfynir ar y graddau cyflog mewn perthynas â phrif swyddogion gan Bwyllgor y Staff Uwch ar gyfer swyddi o dan £100,000 y flwyddyn, gyda'r Cyngor yn penderfynu ar gyflogau o £100,000 neu drosodd y flwyddyn. Caiff telerau ac amodau eraill ar gyfer prif swyddogion eu penderfynu gan Bwyllgor y Staff Uwch, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor. Swyddogaeth y

Cyngor Sir Penfro

Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn hyn o beth yw cymhwysu'r polisi cyflogau a benderfynwyd gan y Cyngor.

9. Ailgyflogi

9.1 Nid yw'n arferiad gan y Cyngor ailgyflogi prif swyddogion sydd wedi ymddeol o gyflogaeth y Cyngor; ac nid yw ychwaith yn arferiad gan y Cyngor gyflogi i swyddi parhaol brif swyddogion sydd wedi ymddeol o gyflogaeth Cyngor arall.

10. Adolygu'r Polisi

10.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran tâl a gwobrwyo o fewn y Cyngor a bydd yn cael ei adolygu yn y dyfodol, bob blwyddyn o leiaf, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu egwyddorion tegwch, cydraddoldeb, atebolrwydd a gwerth am arian i ddinasyddion Sir Benfro.

Cyngor Sir Penfro

Atodiad A

Graddfeydd cyflogau Cyngor Sir Penfro sy'n berthnasol i weithwyr sy'n dod dan

y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (fel ar 01.04.2019)

Mae trafodaethau lleol gyda phartneriaid undebau llafur wedi cytuno ar y tabl isod o ran cymhathu Cytundeb Cyflog 2019 y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

Gradd	Pwynt	£ y flwyddyn	£ yr awr	Gradd	Pwynt	£ y flwyddyn	£ yr awr
2	1	£17,364	£9.00	8	25	£28,785	£14.92
3	2	£17,711	£9.18	8	26	£29,636	£15.36
3	3	£18,065	£9.36	8	27	£30,507	£15.81
4	4	£18,426	£9.55	8	28	£31,371	£16.26
4	5	£18,795	£9.74	8	29	£32,029	£16.60
4	6	£19,171	£9.94	8	30	£32,878	£17.04
5	7	£19,554	£10.14	9	31	£33,799	£17.52
5	8	£19,945	£10.34	9	32	£34,788	£18.03
5	9	£20,344	£10.54	9	33	£35,934	£18.63
5	10	£20,751	£10.76	9	34	£36,876	£19.11
6	11	£21,166	£10.97	9	35	£37,849	£19.62
6	12	£21,589	£11.19	10	36	£38,813	£20.12
6	14	£22,462	£11.64	10	37	£39,782	£20.62
6	15	£22,911	£11.88	10	38	£40,760	£21.13
6	17	£23,836	£12.35	10	39	£41,675	£21.60
7	19	£24,799	£12.85	11	40	£42,683	£22.12
7	20	£25,295	£13.11	11	41	£43,662	£22.63
7	22	£26,317	£13.64	11	42	£44,632	£23.13
7	23	£26,999	£13.99	11	43	£45,591	£23.63
7	24	£27,905	£14.46	12	44	£46,514	£24.10
				12	45	£47,477	£24.59
				12	46	£48,412	£25.08

Cyngor Sir Penfro

Atodiad B

Graddfeydd cyflogau Cyngor Sir Penfro sy'n berthnasol i swydd y prif weithredwr a phrif swyddogion y Cydbwyllgor Trafod Telerau (JNC) (fel ar 01.04.2019)

Prif Weithredwr				
137,972				
Cyfarwyddwr				
110,119	112,878	115,625	118,384	121,131
Penaethiaid Gwasanaeth: band 1				
95,474	97,861	100,246	102,637	105,022
Penaethiaid Gwasanaeth: band 2				
86,492	88,651	90,811	92,977	95,137
Penaethiaid Gwasanaeth: band 3				
78,626	80,589	82,556	84,522	86,492
Penaethiaid Gwasanaeth: band 4				
73,014	74,834	76,657	78,486	80,312
Penaethiaid Gwasanaeth: band 5				
67,393	69,078	70,764	72,446	74,132
Penaethiaid Gwasanaeth: band 6				
61,775	63,323	64,868	66,413	67,949

Nodiadau:

1. Sylwer: mae'r ffigurau a ddangosir yn adlewyrchu gweithredu ail gam dyfarniadau cyflog cenedlaethol 2018 ar gyfer prif weithredwyr a phrif swyddogion am y cyfnod o 2 flynedd o 01.04.2019 i 31.03.2020.
2. Nid yw bandiau cyflog 1 penaethiaid gwasanaeth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd

Cyngor Sir Penfro

Atodiad C

Graddfeydd cyflogau cenedlaethol ar gyfer swyddi o fewn cwmpas Cytundeb Soulbury

Seicolegwyr Addysg - Graddfa A	
Pwynt Colofn	Tâl - yn dod i rym ar 01.09.2018
1	36,446
2	38,296
3	40,146
4	41,994
5	43,844
6	45,693
7	47,434
8	49,175
9	50,806*
10	52,439*
11	53,961*

Nodiadau

Mae'r graddfeydd tâl i gynnwys chwe phwynt dilynol, yn seiliedig ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a rhoi cymhelliant i staff.

*Estyniad i'r raddfa i wneud lle ar gyfer pwyntiau asesu proffesiynol strwythuredig.

Prif Seicolegwyr Addysg a Seicolegwyr Addysg Uwch - Graddfa B	
Pwynt Colofn	Tâl - yn dod i rym ar 01.09.2018
1	46,693
2	47,434
3	49,175*
4	50,806
5	52,439
6	53,961
7	54,586
8	55,754
9	56,911

Cyngor Sir Penfro

10	58,089
11	59,243
12	60,420
13	61,617
14	62,774**
15	63,986**
16	65,186**
17	66,395**
18	67,602**

Nodiadau:

Mae'r graddfeydd cyflog i gynnwys dim mwy na phedwar pwynt dilynol, yn seiliedig ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a rhoi cymhelliant i staff.

*Y pwynt lleiaf arferol ar gyfer y prif seicolegydd addysg sy'n ymgymryd â'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

**Estyniad i'r amrediad i wneud lle ar gyfer pwyntiau graddfa yn ôl disgrisiwn ac asesiadau proffesiynol strwythuredig.

Seicolegydd Addysg dan Hyfforddiant	
Pwynt Colofn	Tâl - yn dod i rym ar 01.09.2018
1	23,415
2	25,129
3	26,841
4	28,556
5	30,269
6	31,983

Seicolegydd Addysg Cynorthwyol	
Pwynt Colofn	Tâl - yn dod i rym ar 01.09.2018
1	28,783
2	29,959
3	31,134
4	32,303

Cyngor Sir Penfro

Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg			
Pwynt Colofn	Tâl - yn dod i rym ar 01.09.2019	Pwynt Colofn	Tâl - yn dod i rym ar 01.09.2019
1	34,749	26	64,713
2	35,993	27	65,282
3	37,168	28	66,405
4	38,359	29	67,532
5	39,543	30	68,656
6	40,727	31	69,771
7	41,971	32	70,903
8	43,168*	33	72,036
9	44,563	34	73,197
10	45,807	35	74,353
11	47,035	36	75,544
12	48,223	37	76,715
13	49,569**	38	77,899
14	50,769	39	79,066
15	52,095	40	80,233
16	53,293	41	81,406
17	54,495	42	82,578
18	55,685	43	83,749
19	56,891	44	84,925
20	57,519***	45	86,099
21	58,727	46	87,274
22	59,780	47	88,454
23	60,939	48	****89623
24	61,978	49	****90797
25	63,089	50	****91972

Nodiadau

Mae'r graddfeydd cyflogau i gynnwys dim mwy na phedwar pwynt dilynol, yn seiliedig ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swyddi a'r angen i recriwtio a rhoi cymhelliant i staff.

*Y pwynt lleiaf arferol ar gyfer Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg sy'n ymgymryd â'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

**Y pwynt lleiaf arferol ar gyfer Gweithiwr Proffesiynol Uwch Gwella Addysg sy'n ymgymryd â'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

***Y pwynt lleiaf arferol ar gyfer Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol Gwella Addysg sy'n ymgymryd â'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

****Estyniad i'r raddfa i wneud lle ar gyfer asesiadau proffesiynol strwythuredig.

Cyngor Sir Penfro



Atodiad D

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
P'un ai, faint, ac ym mha amgylchiadau i gyfrannu at gynllun Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (APC) cost ranedig.	16(2)(e)* & 16(4)(d)*	PEIDIO Â CHYMHWYSO'R DISGRESIWN HWN
P'un ai all yr holl fuddion, neu rai ohonynt, gael eu talu os bydd cyflogai'n lleihau ei oriau neu radd (ymddeoliad hyblyg).	30(6)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH
P'un ai i hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gostyngiad actiwaraid ar fuddion a delir ar ymddeoliad hyblyg.	30(8)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH
P'un ai i hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gostyngiad actiwaraid ar fuddion y mae aelod yn eu tynnu yn wirfoddol cyn oed pensiwn arferol heblaw am ar sail ymddeoliad hyblyg (lle mae aelodaeth ar ôl 31 mawrth 2014 yn unig gan yr aelod).	30(8)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH
P'un ai i ganiatáu pensiwn ychwanegol i aelod gweithredol neu o fewn 6 mis i beidio â bod yn aelod gweithredol oherwydd colli swydd neu effeithlonrwydd busnes (o hyd at £6,500 y flwyddyn. ar 1 Ebrill 2014 - caiff y ffigur hwn ei ddiogelu rhag chwyddiant bob blwyddyn).	31*	PEIDIO Â CHYMHWYSO'R DISGRESIWN HWN

Cyngor Sir Penfro

Atodiad D

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygiadau)

Polisiâu dewisol o 1 Ebrill 2014 mewn perthynas ag aelodau gweithredol ôl 31 Mawrth 2014 (ac eithrio aelodau cynghorwyr) ac ymadawyr ôl 31 Mawrth (ac eithrio aelodau cynghorwyr).

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
P'un ai all yr holl fuddion, neu rai ohonynt, gael eu talu os bydd cyflogai'n lleihau ei oriau neu radd (ymddeoliad hyblyg).	11(2)*	Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion ariannol a chyflwyno gwasanaeth
P'un ai i "gychwyn" y rheol 85 blwyddyn ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed (heblaw am ar sail ymddeoliad hyblyg).	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac 1(1)(c)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH
P'un ai i "gychwyn" y rheol 85 blwyddyn ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac 1(1)(c)*	Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion ariannol a chyflwyno gwasanaeth
P'un ai i "gychwyn" y rheol 85 blwyddyn ar gyfer aelod pensiynwr â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac 1(1)(c)*	Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion ariannol a chyflwyno gwasanaeth
P'un ai i "gychwyn" y rheol 85 blwyddyn ar gyfer aelod â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac 1(1)(f)*	Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion ariannol a chyflwyno gwasanaeth

Cyngor Sir Penfro

<p>P'un ai i hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol cyn oed pensiwn arferol heblaw am ar sail ymddeoliad hyblyg (lle mae gan yr aelod aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 ac ôl 31 Mawrth 2014).</p> <p>a) ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006,</p> <p>b) ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2014) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, ni fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac ni fydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.</p> <p>c) ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2016) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2016) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, a bydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016.</p> <p>d) ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2020) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2020) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, ni fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 a bydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.</p>	<p>Atodlen 2, paragraff 2(1) & 3(1)*</p>	<p>Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion ariannol a chyflwyno gwasanaeth</p>
<p>P'un ai i hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gymhwysir i fuddion gohiriedig a delir yn gynnar dan Reoliad 30, Rheoliadau Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau 2007 (aelod).</p>	<p>Atodlen 2, paragraff 2(1)*</p>	<p>YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH</p>
<p>P'un ai i hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gymhwysir i fuddion a delir yn gynnar dan Reoliad 30A, Rheoliadau Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau 2007 (aelod pensiynwr gyda buddion gohiriedig).</p>	<p>Atodlen 2, paragraff 2(1)*</p>	<p>Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion ariannol a chyflwyno gwasanaeth</p>

Cyngor Sir Penfro

Hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gymhwysir i fuddion gohiriedig a delir yn gynnar.

Atodlen 2,
paragraff 2(1)*

Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion ariannol a chyflwyno gwasanaeth

Cyngor Sir Penfro

Atodiad D

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
<p>P'un ai i hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gymhwysir i fuddion gohiriedig a delir yn gynnar dan Reoliad 30 (aelod).</p>	30(5)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH
<p>P'un ai i hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol cyn oed pensiwn arferol heblaw am ar sail ymddeoliad hyblyg (lle mae gan yr aelod aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 ac ôl 31 Mawrth 2014).</p> <p>a) ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006,</p> <p>b) ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, ni fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac ni fydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.</p> <p>c) ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2016) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2016) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, a bydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016.</p> <p>ar sail dosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2020) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ôl 31 Mawrth 2020) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, ni fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth</p>	30(5)* & 30A(5)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH

Cyngor Sir Penfro

2016 a bydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.		
P'un ai i hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraid a gymhwysir i fuddion a delir yn gynnar dan Reoliad 30A (aelod pensiyonwr â buddion gohiriedig).	30A(5)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH

Cyngor Sir Penfro

Atodiad D

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y diwygiwyd)

Polisiau dewisol mewn perthynas ag aelodau sy'n gynghorwyr Cymreig gweithredol, aelodau cynghorwyr sydd wedi peidio â bod yn aelodau gweithredol ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998, ac unrhyw aelodau eraill o'r cynllun sydd wedi peidio â bod yn aelodau gweithredol ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998 a chyn 1 Ebrill 2008.

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
Caniatáu cais i gael talu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed a chyn 55 oed.	31(2)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH
Hepgor, ar sail dosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a gymhwysir i fuddion gohiriedig a delir yn gynnar.	31(5)*	YSTYRIED POB CAIS GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR HOLL FATERION ARIANNOL A CHYFLWYNO GWASANAETH
Rhai sy'n optio allan i gael buddion wedi'u talu gan NRD os yw'r cyflogwr yn cytuno yn unig.	31(7A)*	Amherthnasol
Caniatáu cais i gael talu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed ar sail dosturiol	106(1)*	Ystyried pob Cais.

Cyngor Sir Penfro

Atodiad D

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (Darpariaethau Trosiannol)

Polisiâu dewisol mewn perthynas ag aelodau sydd wedi peidio â bod yn aelodau gweithredol cyn 1 Ebrill 1998.

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
Caniatáu cais i gael talu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed ar sail dosturiol	4*	Ystyried pob Cais.

Atodiad D

Cyngor Sir Penfro

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995 (fel y diwygiwyd)

Polisiâu dewisol mewn perthynas ag aelodau sydd wedi peidio â bod yn aelodau gweithredol cyn 1 Ebrill 1998.

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
Caniatáu cais i gael talu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed ar sail dosturiol	11(2)(c)*	Ystyried pob Cais.

Cyngor Sir Penfro

Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar)

Rheoliadau 2006 (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) (fel y diwygiwyd)

Dan Reoliad 7 y Rheoliadau Iawndal yn ôl Disgresiwn, mae'n ofynnol i bob awdurdod (heblaw am Gorff Derbyniedig) ffurfio a chadw dan adolygiad polisi sy'n gymwys o ran ymarfer eu disgresiwn mewn perthynas â

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
Seilio taliadau colli swydd ar gyflog wythnos gwirioneddol lle mae hwn yn fwy na'r terfyn cyflog wythnosol statudol.	5*	TÂL COLLI SWYDD STATUDOL I GAEL EI SEILIO AR ENILLION GWIRIONEDDOL
Dyfarnu iawndal lwmp swm o hyd at 104 wythnos o gyflog mewn achosion o golli swydd, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd, neu ddarfyddiad penodiad ar y cyd.	6*	DYFARNU TALIADAU'N SEILIEDIG AR DABLAU COLLI SWYDD STATUDOL A RHYDDHAD BUDDION CRONEDIG AR GYFER EFFEITHLONRHYDD, RHYDDHAD BUDDION CRONEDIG YN UNIG
Dyfarnu blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol i berson 50 oed neu hŷn gyda 5 mlynedd neu fwy o aelodaeth (neu aelodaeth dybiannol) CPLIL mewn achosion o golli swydd, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd, neu ddarfyddiad penodiad ar y cyd a ddigwyddodd ar ôl 30ain Medi 2006 a chyn 1af Ebrill 2007 (ond dim ond os oedd y gyflogaeth wedi dechrau cyn 1af Hydref 2006)	11(2)	PEIDIO Â CHYMHWYSO'R DISGRESIWN HWN

Cyngor Sir Penfro

Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar)

Rheoliadau 2000 (lawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) (fel y diwygiwyd)

Dan Reoliad 26 y Rheoliadau lawndal yn ôl Disgresiwn, mae'n ofynnol i bob awdurdod (heblaw am Gorff Derbyniedig) ffurfio a chadw dan adolygiad polisi sy'n gymwys o ran ymarfer eu disgresiwn mewn perthynas â

Disgresiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
Sut i ddsrannu taliad blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol blynyddol i unrhyw briod sy'n fyw neu bartner sifil sy'n fyw lle mae mwy nag un priod neu bartner sifil wedi goroesi'r person ymadawedig.	21(4)*	DOSRANNU AR YR UN SAIL Â BUDDION PRIF GYNLLUN
Sut y bydd yn penderfynu i bwy caiff unrhyw daliadau blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol blynyddol i blant eu talu lle nad yw taliadau pensiynau plant yn daladwy dan y CPLIL (oherwydd nad oedd y cyflogai wedi ymuno â'r CPLIL) a, mewn achos o'r fath, sut caiff y blynyddoedd ychwanegol blynyddol eu dosrannu ymysg y plant cymwys.	25(2)*	DOSRANNU AR YR UN SAIL Â BUDDION PRIF GYNLLUN
P'un ai, ynglŷn â phriod person peidiodd ei gyflogaeth cyn 1 Ebrill 1998 a lle mae'r priod neu bartner sifil yn ailbriodi, ffurfio partneriaeth sifil newydd neu'n cyd-fyw ar ôl 1 Ebrill 1998, dylid datgymhwyso'r rheolau atal pensiwn arferol h.y. p'un ai dylid parhau i dalu taliadau blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol blynyddol y priod neu bartner sifil.	21(7)*	BLYNYDDOEDD YCHWANEGOL AD-DALIADOL I BARHAU MEWN TALIAD
	21(5)	DOSRANNU AR YR UN SAIL Â BUDDION PRIF GYNLLUN

Cyngor Sir Penfro

<p>Os, dan y penderfyniad blaenorol, polisi'r awdurdod yw cymhwyso'r rheolau atal arferol, p'un ai y dylid adfer taliad blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol blynyddol y priod neu bartner sifil ar ôl diwedd yr ailbriodas, partneriaeth sifil newydd neu gyd-fyw.</p>		
<p>P'un ai, ynglŷn â phriod neu bartner sifil person peidiodd ei gyflogaeth cyn 1 Ebrill 1998 a lle mae'r priod neu bartner sifil yn ailbriodi neu'n cyd-fyw neu'n ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998 gyda pherson arall sydd hefyd â hawl i daliad blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol (CAY) blynyddol, dylid datgymhwyso'r rheol arferol sy'n gofyn bod un ohonynt yn ildio taliad yn ystod y cyfnod mae'r briodas, partneriaeth sifil neu gyd-fyw yn para, h.y. p'un ai y dylid parhau i dalu taliadau CAY blynyddol pobl briod neu bartneriaid sifil i'r ddau ohonynt.</p>	21(7)	
<p>P'un ai ac i ba raddau i leihau neu atal taliad blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol blynyddol yr aelod yn ystod unrhyw gyfnod o ailgyflogaeth mewn llywodraeth leol.</p>	17	<p>PEIDIO Â LLEIHOU MWYACH; ADLEWYRCHU POLISI CRONFA BENSIWN DYFED O 01/10/06</p>
<p>Sut i leihau taliad blynyddoedd ychwanegol ad-daliadol blynyddol yr aelod yn dilyn darfyddiad cyfnod ailgyflogaeth mewn llywodraeth leol.</p>	19	<p>PEIDIO Â LLEIHOU MWYACH; ADLEWYRCHU POLISI CRONFA BENSIWN DYFED O 01/10/06</p>

Atodiad D

Disgresiynau dan Reoliadau Llywodraeth Leol 2011 (Taliadau yn ôl Disgresiwn) (Lwfansau Anafiadau)

Cyngor Sir Penfro

Dan Reoliad 14 y Rheoliadau Lwfansau Anafiadau, bydd yn ofynnol i bob cyflogwr CPLIL (heblaw am Gorff Derbyniedig) ffurfio, cyhoeddi a chadw dan adolygiad y polisi bydd yn ei gymhwyso wrth ymarfer ei bwerau disgrisiwn i wneud unrhyw ddyfarniad dan y Rheoliadau Lwfansau Anafiadau mewn perthynas ag ymadawyr, marwolaethau a gostyngiadau mewn cyflog a ddigwyddodd ar ôl 15 Ionawr 2012.

Disgrisiwn (Hawl i Ddewis)	Rheoliad	Polisi
P'un ai i ganiatáu lwfans anafiadau yn dilyn gostyngiad mewn tâl o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	3(1)	MAE ...rhowch enw... WEDI DEWIS PEIDIO Â GWEITHREDU LWFANS ANAFIADAU DAN Y RHEOLIADAU UCHOD.
Swm y lwfans anafiadau yn dilyn gostyngiad mewn tâl o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	3(4) ac 8	Gweler 3 (1)
Penderfynu p'un ai yw person yn parhau â hawl i gael lwfans anafiadau a ddyfernir dan Reoliad 3(1).	3(2)	Gweler 3 (1)
P'un ai i ganiatáu lwfans anafiadau yn dilyn darfyddiad cyflogaeth o ganlyniad i analluogrwydd parhaol a achoswyd trwy gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	4(1)	Gweler 3 (1)
Swm y lwfans anafiadau yn dilyn darfyddiad cyflogaeth o ganlyniad i analluogrwydd parhaol a achoswyd trwy gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	4(3) ac 8	Gweler 3 (1)

Cyngor Sir Penfro

Penderfynu p'un ai yw person yn parhau â hawl i gael lwfans anafiadau a ddyfernir dan Reoliad 4(1).	4(2)	Gweler 3 (1)
P'un ai i atal neu roi terfyn ar lwfans anafiadau a ddyfernir dan Reoliad 4(1) os bydd person yn cael cyflogaeth â thâl am o leiaf 30 awr yr wythnos am gyfnod o 12 mis fan lleiaf.	4(5)	Gweler 3 (1)
P'un ai i ganiatáu lwfans anafiadau yn dilyn darfyddiad cyflogaeth gyda hawl i gael pensiwn CPLIL ar unwaith lle roedd taliad Rheoliad 3 yn cael ei wneud ar ddyddiad darfyddiad cyflogaeth ond bod Rheoliad 4 ddim yn berthnasol.	6(1)	Gweler 3 (1)
Penderfynu swm y lwfans anafiadau i'w dalu dan Reoliad 6(1).	6(1)	Gweler 3 (1)
Penderfynu p'un ai a phryd i ddarfod talu lwfans anafiadau sy'n daladwy dan Reoliad 6(1).	6(2)	Gweler 3 (1)
P'un ai i ganiatáu lwfans anafiadau i briod, partner sifil, partner enwebedig sy'n cyd-fyw neu ddibynnydd cyflogai sy'n marw o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	7(1)	Gweler 3 (1)
Penderfynu swm unrhyw lwfans anafiadau i'w dalu dan Reoliad 7(1).	7(2) ac 8	Gweler 3 (1)
	7(3)	Gweler 3 (1)

Cyngor Sir Penfro

Penderfynu p'un ai a phryd i ddarfod talu lwfans anafiadau sy'n daladwy dan Reoliad 7(1).